**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Ann Jones AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

8 Chwefror 2016

Annwyl Ann

**Cyllideb Ddrafft 2016-2017**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 26 Ionawr yn gofyn am ragor o wybodaeth am nifer o bwyntiau yn sgil fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 21 Ionawr. Rwyf wedi nodi isod fy ymateb i bob un o'r pwyntiau a nodwyd gan y Pwyllgor.

Mae'n dda gennyf fod y Pwyllgor yn croesawu buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd cynnar. Y rhaglenni *Teuluoedd yn Gyntaf* a *Dechrau'n Deg* yw ein prif raglenni ar gyfer ymyrryd yn gynnar. Mae'r ddwy raglen hon yn gwella canlyniadau i deuluoedd ledled Cymru, gan sicrhau bod plant o rai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Roedd adroddiad a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar (*Early Intervention Foundation*) y llynedd yn tynnu sylw at y gost gyllidol o golli cyfleoedd i roi'r cymorth priodol yn gynnar i blant a phobl ifanc. Roedd yr adroddiad yn dod i'r casgliad mai ymyrraeth gynnar yw'r dewis craff a realistig wrth ddefnyddio arian cyhoeddus, sy'n mynd yn gyson brinnach. Mae'r Llywodraeth hon wedi blaenoriaethu'r angen i fuddsoddi mewn atal ac ymyrryd yn gynnar, er mwyn sicrhau bod y sylfaeni yn eu lle ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Dyna pam rydym wedi parhau i fuddsoddi yn *Dechrau'n Deg* a *Teuluoedd yn Gyntaf.*

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Wrth baratoi Cyllideb Ddrafft 2016-17, rydym wedi datblygu ymhellach ddull gweithredu'r blynyddoedd blaenorol er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hystyried yn llawn drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y Gyllideb. Dyletswydd i roi sylw dyledus i hawliau plant, yn hytrach na chwblhau Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, yw'r ddyletswydd sydd ar y Gweinidogion. O ran ein Cyllideb Ddrafft, mae'r Gweinidogion wedi penderfynu cwblhau Asesiad Effaith Integredig sy'n ystyried hawliau plant ochr yn ochr ag effeithiau ar gydraddoldeb, y Gymraeg, ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae argymhellion gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Pwyllgorau'r Cynulliad, y Grŵp Cynghori Cyllidol ar gyfer Cydraddoldeb a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi ein helpu i ddatblygu'r dull gweithredu hwn. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn nodi'r effeithiau perthnasol.

Fel y dywedais wrth y Pwyllgor, lansiais brosiect i edrych ar unrhyw gyfleoedd i sicrhau bod ein rhaglenni trechu tlodi yn ategu ei gilydd yn fwy effeithiol. Rwyf wedi cytuno ar nifer o argymhellion ar gyfer 2015/16, ac yn ogystal â symleiddio prosesau, bydd yna hefyd gyfle i weithredu trefniadau ariannu hyblyg er mwyn i'r rhaglenni allu sicrhau'r canlyniadau y mae eu hangen.

O ran eich cwestiynau penodol:

1. **A yw'r systemau monitro sydd ar waith ar hyn o bryd yn gallu dangos tystiolaeth o ganlyniadau gwell i blant a'u teuluoedd; ac yn ei dro a yw'r data sydd gennych yn gallu dangos eich bod yn llwyddo i sicrhau'r canlyniadau a fwriadwyd, ac felly bod y buddsoddiad yn rhoi gwerth am arian?**

Rwy'n hyderus bod *Dechrau'n Deg* yn gwneud gwahaniaeth i fywydau plant. Roedd yr adroddiad gwerthuso ansoddol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016, yn nodi amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol yr oedd rhieni'n teimlo bod *Dechrau'n Deg* wedi eu cyflawni ym mywydau eu teuluoedd. Er enghraifft, roedd y rhieni'r plant a oedd wedi manteisio ar ofal plant *Dechrau'n Deg* yn teimlo bod eu plant yn fwy hyderus ac wedi eu paratoi'n well ar gyfer mynd i'r ysgol. Hefyd, roedd yr ymchwil werthuso annibynnol flaenorol, a wnaed gan Ipsos Mori, yn awgrymu y gallai canlyniadau i deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd *Dechrau'n Deg* bellach fod ar yr un lefel â chanlyniadau i deuluoedd mewn ardaloedd sy'n llai difreintiedig o'u cymharu.

Ochr yn ochr â'r gwaith ymchwil a gwerthuso, mae'r systemau monitro sydd ar waith yn caniatáu inni ddadansoddi perfformiad y rhaglen yn ei chyfanrwydd, yn ogystal â pherfformiad awdurdodau lleol unigol. Fel y soniais eisoes, ategir y broses hon gan ein proses rheoli atebolrwydd, lle mae Rheolwyr Atebolrwydd yn dwyn awdurdodau lleol i gyfrif am eu perfformiad.

Fel y soniais yn y Pwyllgor, rydym yn treialu dull gweithredu newydd ar gyfer cofnodi data *Dechrau'n Deg*. Bydd y system newydd hon yn casglu gwybodaeth fanylach ynghylch lefelau'r gefnogaeth a'r ymgysylltu y mae pob plentyn yn eu derbyn, ac yn eu clymu wrth eu canlyniadau addysgol yn y dyfodol wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol ac wedyn symud drwy'r ysgol. Bydd hyn yn ein galluogi i greu darlun gwell o'r effeithiau tymor hir ar fywydau plant sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglen *Dechrau'n Deg*.

2. **Mae'r Adran yn parhau mewn sefyllfa lle na all fesur nifer y plant sy'n elwa o bob un o'r pedwar hawl Dechrau'n Deg, a bod cyfraddau defnyddio 'hawliau iaith a lleferydd' Dechrau'n Deg yn cael eu diffinio 'fel cwrs a gynigir i riant unigol a oedd yn bresennol yn y sesiwn gyntaf'.**

Mae cefnogaeth ar gyfer datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yn un o'r pedair hawl graidd sydd i'r rhaglen *Dechrau'n Deg*. Mae tystiolaeth ddiymwad bod datblygiad i fod yn hyfedr mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant. Mae pob rhiant sy'n manteisio ar *Dechrau'n Deg* yn cael cynnig ymyrraeth gyffredinol sy'n cefnogi datblygiad cynnar mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu. Gallai hynny gael ei darparu mewn sesiwn un-i-un neu mewn grŵp, ac yn y cartref, mewn un o leoliadau *Dechrau'n Deg*, neu mewn lleoliad gofal plant.

Mae'r rhaglen *Dechrau'n Deg* yn darparu nifer o gyrsiau iaith a chwarae strwythuredig, ac mae hefyd yn sicrhau bod negeseuon ynghylch rhianta a lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi eu hymgorffori ym mhob rhan o'r rhaglen; nid sôn yr ydym yma am ddarparu un cwrs yn unig.

Yn ogystal â monitro nifer y rhieni sy'n cofrestru ac sy'n dod i sesiwn gyntaf y cyrsiau hyn, mae system fonitro *Dechrau'n Deg* hefyd yn monitro'r cyfraddau sy'n manteisio ar y gwasanaeth. Mae hynny'n cynnwys cofnodi'r niferoedd sy'n mynychu dros 50% o sesiynau, a'r niferoedd sy'n mynychu dros 75% o sesiynau. Fel gyda'r data eraill yr ydym yn eu casglu, mae'r data hyn yn cael eu casglu fesul tymor. Mae'r rhaglen yn darparu nifer o gyrsiau rhianta ffurfiol ac anffurfiol, sy'n cynnwys elfennau o weithgarwch lleferydd, iaith a chyfathrebu, er bod hyn yn amrywio yn ôl y cwrs.

Fel gydag elfennau eraill o'r rhaglen, mae'r ddarpariaeth o leferydd, iaith a chyfathrebu yn gallu bod yn destun amryfusedd, a phryd hynny mae'r Rheolwyr Atebolrwydd yn craffu ar y penderfyniadau a wneir er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu ar yr amser iawn i'r rheini sydd â'r angen mwyaf.

Fel y nodwyd uchod, bydd y cynllun treialu ar gyfer y dull gweithredu newydd a ddefnyddir i gasglu data *Dechrau'n Deg* yn caniatáu inni fesur nifer y plant sy'n derbyn cefnogaeth drwy bob un o elfennau'r rhaglen, gan gynnwys graddfa ar gyfer eu presenoldeb ar unrhyw gyrsiau a ddarperir drwy'r hawl lleferydd, iaith a chyfathrebu.

1. **Er y croesawn eich penderfyniad i gynnwys elfen allgymorth i Dechrau'n Deg, rydym yn bryderus nad oes unrhyw system ar waith i asesu ei werth am arian. Byddai cael gwerthusiad o'r elfen bwysig hon yn hwyluso penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylid ehangu'r dull**

**gweithredu presennol o ran allgymorth, neu a oes angen dulliau gwahanol.**

Mae'r elfen allgymorth o'r rhaglen yn rhoi hyblygrwydd i Awdurdodau Lleol er mwyn iddynt allu cefnogi teuluoedd mewn angen. Ers ehangu, 2.5% o'r refeniw dyranedig yw lefel y cyllid, ac ar hyn o bryd gwasanaethir tua 450 o blant 0 i 4 oed sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg.

Gellir defnyddio allgymorth i gefnogi teuluoedd sydd mewn argyfwng a'r teuluoedd sydd angen gwasanaethau ychwanegol fwyaf. Hefyd, mae'n galluogi Awdurdodau Lleol i ymestyn Dechrau'n Deg i gynnwys teuluoedd ag anghenion dynodedig sy'n byw mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o Dechrau'n Deg. Mae hefyd yn ffordd o sicrhau parhad cymorth i blant a theuluoedd sy'n symud allan o ardaloedd Dechrau'n Deg, neu deuluoedd sydd angen i'r gwasanaethau barhau tan iddynt ddechrau derbyn gwasanaethau eraill. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau gan rieni am ddarpariaeth allgymorth yn geisiadau am yr elfen gofal plant yn unig.

Mae'r broses o reoli cyfrifon yn cynnwys rhoi ystyriaeth o gyflawni gwasanaethau Dechrau'n Deg drwy allgymorth. Mae allgymorth, o'i natur, yn benodol i deuluoedd unigol, ac felly mae gwerthuso'r effeithiau penodol yn heriol. Fodd bynnag, bydd y dull newydd o gasglu data yn ein galluogi i bennu'r cymorth a dderbyniwyd gan deuluoedd allgymorth a'r deilliannau addysgol ar gyfer plant wrth iddynt symud i'r ysgol, a thrwy'r ysgol. Rhaid i bob awdurdod lleol sicrhau bod systemau cadarn ar waith i alluogi darparu'r gwasanaeth allgymorth i'r plant sydd ei angen fwyaf. Caiff y systemau hyn eu hasesu gan Reolwyr Cyfrifon drwy gydol y flwyddyn.

2. **Nodwn hefyd nad oes system ar waith i fonitro cyrhaeddiad y garfan o blant sydd wedi elwa ar Dechrau'n Deg ar eu taith drwy'r ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd ac yn y cyfnod pontio pwysig rhwng y ddau gam. Byddem yn croesawu cael adborth ar drafodaethau y byddwch yn eu cael o bosibl gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn y dyfodol, i edrych yn fanwl ar y posibiliadau ar gyfer monitro canlyniadau o'r fath ar lefel disgyblion unigol o ran plant sy'n elwa o Dechrau'n Deg, a'r posibilrwydd o barhau â hyn yn y tymor byr ac yn yr hirdymor.**

Bydd y dull newydd o gofnodi data ar blant Dechrau'n Deg yn cynnwys sicrhau y gellir cysylltu data Dechrau'n deg â data addysg unwaith y bydd plant Dechrau'n Deg wedi dechrau yn yr ysgol. Bydd hyn yn caniatáu dealltwriaeth well o'r deilliannau i ddisgyblion a oedd yn rhan o Dechrau'n Deg cyn mynd i'r ysgol.

Yn ogystal, mae fy swyddogion wedi gweithio gyda swyddogion yr Adran Addysg i ddatblygu Dull Asesu Datblygiad yn y Blynyddoedd Cynnar. Rhan o'r gwaith yw cryfhau'r broses o drosglwyddo data rhwng timau Dechrau'n Deg ac ysgolion. Byddwn yn profi'r dull newydd o fis Ebrill 2016 ymlaen gyda thri Awdurdod Lleol gyda'r nod o gyflwyno'r system gasglu data newydd o fis Ebrill 2017 ymlaen .

Yn ystod sesiwn y Pwyllgor, cytunom y byddem yn rhoi manylion ynghylch y fformiwla ddyrannu a ddefnyddir i yn rhaglen Dechrau'n Deg. Gallaf gadarnhau bod y dyraniad cyllid ar gyfer y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn seiliedig ar fformiwla gyllido Gwasanaethau Cymdeithasol Personol Plant a Phobl Ifanc, sydd fel a ganlyn:-

0.699 x plant dibynnol mewn teuluoedd heb waith
0.135 x plant dibynnol mewn tai rhent cymdeithasol
0.099 x plant dibynnol mewn tai gorlawn
0.055 x poblogaeth o dan 18 oed mewn wardiau â dwysedd pwysoledig mwy na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru
0.012 x trothwy gwasgaru 300

Mae dyraniadau 2016/17 wedi'u gwneud gan ddefnyddio'r fformiwla hon. Byddaf yn anfon copi o'r ateb hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty